Beth, tybed, fyddai wedi dod pe cawsai'r bardd gwrdd â'r gwrthrych wyneb yn wyneb? Doedd Ioan Glan Menai ddim ar ei ben ei hun oherwydd yn rhifyn Mai, 1890 o'r Biographical Magazine wele ysgrif helaeth ar fywyd a gwaith Edward Jones, ac yn rhifyn Ionawr, 1891, o'r un cylchgrawn dychwelodd y golygydd at y gwrthrych mewn darn hynod o ganmoliaethus o dan y pennawd *A Sketch of the Life and Work of Mr. Edward Jones, Mayor of Pwllheli.* Roedd Edward Jones ar ben ei ddigon.

Er y llwyddiant ymddangosiadol yn South Beach, tu ôl i'r llenni doedd y sefyllfa ddim mor foddhaol â hynny. Ychydig iawn o'r hanes sydd wedi dod i'r golwg ond gellir casglu nad oedd y drindod mentrus wedi medru osgoi cael eu twyllo gan bobl llawer mwy bydol na nhw eu hunain. Er enghraifft, dodrefnwyd llawer o dai yn barod ar gyfer atynnu pobl yn brofiadol yn y busnes o ddarparu ar gyfer ymwelwyr a chael colledion sylweddol wrth i rai o'r rheini ffoi dros nos gan, wrth gwrs, ddwyn y dodrefn wrth wneud. Dyna'r stori, ond mi fyddai'n dipyn o gamp i symud llwyth o ddodrefn gryn bellter ac yn ddiarwybod i neb yn yr oes honno, hyd yn oed os oedd y trên i'w gael ym Mhwllheli.

Mae'n bosib hefyd bod drwgdeimlad rhwng y drindod wedi cael ei achosi yn 1891 wrth ethol maer yng nghyfarfod blynyddol y cyngor tref. Roedd Edward Jones wedi bod yn y swydd am y pedair blwyddyn blaenorol, a châi flas mawr ar weld a chlywed pobl, o bell ac agos, yn ei alw yn Edward Jones y Maer. Erbyn 1891 ceir awgrym bod ei ddau bartner wedi dechrau cael 11ond bol ar awydd Edward Jones i fod yn geffyl blaen oherwydd eu penderfyniad y dylsai rhywun arall, o ran tegwch, gael ei dro yn faer. Y nhw gynigiodd enw Robert Owen Jones i gael y swydd y tro hwnnw ac ef a etholwyd, trwy fwyafrif o 8 i 4. Tybed ai'r digwyddiad hwn oedd y bin gyntaf i'w rhoi yn swigen Edward Jones?

Serch hynny, yn ystod y flwyddyn nesaf, yn ôl y drefn, daliai'r cyn faer gyfran o'i awdurdod trwy barhau i fod ar fainc yr ynadon ac fe wnaeth yn fawr o hynny. Mewn adroddiad amdano'n rhannu pulpud yng Ngŵyl Bregethu'r Annibynwyr yn Ebeneser, Trelewis, Sir Forgannwg, fel 'Edward Jones y cyn faer' y cyhoeddwyd ei enw. Y pregethwr arall oedd un tra enwog, y Parchg. Owen Jones, Aberpennar, cyn-weinidog Capel Penlan Pwllheli. Wyddys ddim beth oedd teimladau hwnnw pan sylweddolodd pwy oedd ei gyd-bregethwr.

Un o'r drindod, Robert Jones, oedd y maer yn 1892, ond yn 1893 roedd Edward Jones unwaith eto wrth y llyw. Roedd y sefyllfa, o leiaf yn arwynebol, yn ymddangos yn iach ac yn wir fe geir tystiolaeth fod D. E. Davies wedi bod wrthi yn trefnu benthyciad newydd o £500 trwy forgais yn yr un flwyddyn, ond yn gynnar yn y flwyddyn nesaf syfrdanwyd pawb gan ymddiswyddiad sydyn Edward Jones o'r cyngor ac, wrth gwrs, o'r faeroliaeth. Cymerodd amser hir i'r rhesymau ddod i'r golwg ond roedd Jones wedi colli ei wraig, wedi symud i Gaernarfon, ac yn sgîl y cydymdeimlad sefydlwyd cronfa ar gyfer rhoddi tysteb iddo.

Serch hynny, mae'n anodd osgoi'r teimlad y buasai'r dref hefyd yn ferw efo gwahanol ddyfaliadau am gyfnod hir. Yn ystod haf 1895 datguddiwyd fod Edward Jones wedi mynd i'r wal efo dyledion o £14,174 a dim ond gwerth £3,285 wrth gefn, gan briodoli ei fethdaliad i'w fuddsoddiadau hael yn natblygiad South



*Edward Jones, Maer Pwllheli.*

Beach, i'w gyfraniadau ar gyfartaledd o £250 y flwyddyn i achosion crefyddol ac elusennau, tra nad oedd ei incwm blynyddol ond rhywle rhwng £500 a £600. Ei brif ddyledwyr oedd ei ddau bartner. I Robert Jones roedd arno £1,000 a £500 i D. E. Davies, y ddau fenthychiad yn ddi-log. Yn ddadlennol iawn dywedir i Edward Jones roi £125 ar fenthyg i ddyn na wyddai ei enw! A megis fel ôl-nodyn ar ei alluoedd fel pregethwr roedd arno £176 i'r Parchg. William Evans, Hertford, am lunio pregethau iddo, ac y mae'n debygol mai hynny oedd achos y ddyled o £100 a oedd ganddo i'r Dr Pan Jones, Mostyn, hefyd.

Mae'r hyn a ddatguddiwyd gan ambell un dros y blynyddoedd yn awgrymu'r tebygolrwydd fod Edward Jones wedi sicrhau benthyciadau yn ddiarwybod i'w ddau bartner, fod nifer o'r dyledion hynny wedi cael eu clirio ganddyn nhw cyn i'r argae dorri a dod i ymwybyddiaeth drwy'r methdaliad, gan adael y ddau bartner yn brif golledwyr trwy fethiant y trydydd. Hynny, wrth gwrs, a fyddai'n deg yn nhyb llawer un gan mai y nhw a oedd yn debygol o fod yn bennaf gyfrifol am ddyrchafiad Edward Jones i'r bedestal y bu'n ei haddurno ym Mhwllheli am gyfnod o saith mlynedd.

Roedd popeth ar ben o safbwynt rhagor o ddatblygiadau yn South Beach yn y cyfnod hwnnw. Erys enw D. E. Davies, Robert ac Edward Jones ar gerrig sylfeini tri o'r tai sy'n wynebu'r môr. Iorwerth House oedd enw ar un tŷ mewn rhes yn Churton Street. Does dim byd pendant wedi dod i'r golwg i ddatguddio pwy a goffheid gan yr enw Edward Street. Doedd honno ddim ymhlith y tai mwyaf urddasol yn y lle. Ai i gofio am Edward Jones y rhoddwyd yr enw hwnnw?

Roedd anallu'r bartneriaeth i dalu ei ffordd yn sicr o fod yn bilsen chwerw iawn i lawer o bobol lyncu wedi iddyn nhw brofi sawl blwyddyn o ffyniant, brwdfrydedd ac addewid mawr. Doedd bywydau D. E. Davies a Robert Jones, ddim yn debygol o fod yn felys iawn iddyn nhw a phan ymddiswyddodd Jones o'r banc diflannodd i Lundain efo'i gynffon rhwng ei goesau. Ymadael, wedyn, yn 1896, wnaeth Davies hefyd, i Gaernarfon i gymryd swydd asiant tros Ogledd Cymru i Gwmni Yswiriant Mutual Life o Efrog Newydd. Yn 1904 symudodd i Gaerdydd yn rheolwr tros Gymru i'r cwmni ond yn 1905, wedi iddo'u hargyhoeddi y medrai wneud ei waith lawn cystal ym Mhwllheli a Chaerdydd, dychwelodd i Bwllheli, yr unig un o'r tri datblygwr a fentrodd i wneud hynny. Mae hynny'n debyg o ddweud yn o amlwg nad oedd arno ef yn bersonol arian i neb ond doedd hynny ddim yn ddigon i dymheru chwerwedd ambell un a welodd ei freuddwyd am gyfoeth dibendraw yn cael ei chwalu. Fe welir siom amlwg D. E. Davies oherwydd ymddygiad rhai na'i croesawodd yn ôl yn glir, mewn nodyn sydd yn ei ddyddlyfr. Roedd ei gydwybod yn amlwg yn glir ond disgwyliodd ormod os credai y derbynnid ef yn ôl â breichiau agored. Y naifrwydd hwnnw, hwyrach, oedd wrth wraidd y derbyniad a roes i Edward Jones yn 1886!

D. G. LLOYD HUGHES